

Panel Rhiantu Corfforaethol

Cwrdd ag anghenion cymdeithasol a hamdden plant sy'n 'derbyn gofal' wedi'r pandemig

Pwrpas

Yng nghyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol ym mis Mehefin 2021, cyflwynwyd papur i ystyried y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Gyngor Ynys Môn. Yn yr adroddiad hwnnw, cyfeiriwyd at y modd y cafodd gwasanaethau eu haddasu yng ngoleuni'r cyfyngiadau a roddwyd arnynt yn sgil y pandemig.

Nodwyd hefyd bod y cyfyngiadau ar weithgareddau cymdeithasol a hamdden wedi cyfrannu at deimladau o unigrwydd a phryder, a dwysau'r teimladau hyn. Nododd un person ifanc a oedd yn rhan o'r arolwg bod diffyg mynediad at wersi karate wedi cael effaith negyddol uniongyrchol ar ei les emosiynol.

Un o'r camau gweithredu o gyfarfod y panel ym mis Mehefin oedd cyflwyno adroddiad i'r panel yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ar y gweithgareddau cymdeithasol a hamdden y mae gan y bobl ifanc sy'n derbyn gofal fynediad atynt.

Dull

Gofynnwyd i weithiwr cymdeithasol pob plentyn a pherson ifanc sydd yng ngofal Cyngor Ynys Môn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Manylion y gweithgareddau y mae'r plentyn neu berson ifanc yn cymryd rhan ynddynt;
- Manylion ynglŷn â'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan.

Canfyddiadau

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ffactor allweddol i ofalwyr maeth a darparwyr gofal preswyl yn gyffredinol. Mae'n meithrin cynhwysiant ac fe all leihau unigrwydd. Anogir pob plentyn a pherson ifanc sydd yng ngofal Cyngor Sir Ynys Môn gan eu darparwyr gofal i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, boed wedi'u trefnu a'u hyrwyddo gan ysgolion/clybiau neu'n uniongyrchol gan ofalwyr.

Mae lleoliad daearyddol Ynys Môn yn golygu bod mynediad ar gael i bob math o weithgareddau hamdden, yn enwedig rheiny yn yr awyr agored, ar dir neu ar y môr, ac roedd hynny'n amlwg yn yr adborth a dderbyniwyd.

Fel y gellid disgwyl, y pandemig oedd y rhwystr mwyaf dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegwyd rhwystredigaeth a thristwch gan weithwyr cymdeithasol ynglŷn â'r diffyg mynediad at nifer o weithgareddau. Roedd gwersi nofio, yn enwedig ar gyfer y rheiny sy'n ddigon hen i ddechrau dysgu nofio, ymhlith un o'r rhwystredigaethau mwyaf.

Ond ochr arall i'r geiniog yw bod mwy wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, sy'n ddealladwy gan fod llai o reoliadau ar weithgareddau awyr agored wedi bod yn ystod y pandemig. Roedd cerdded a seiclo yn ymddangos yn aml yn yr adborth ac roedd ambell i berson ifanc anturus wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dringo.

Ar y cyfan roedd yr adborth gan weithwyr cymdeithasol yn nodi bod mynediad at weithgareddau bellach yr un fath â'r cyfnod cyn y pandemig fwy neu lai, er bod trefniadau 'Diogelu rhag Covid' ar waith. Nododd un gweithiwr cymdeithasol anawsterau wrth geisio gwneud trefniadau i berson ifanc ymuno â'r Sgowtiaid, er yr ymddengys mai achos unigryw oedd hwn.

Mae gan ofalwyr maeth Ynys Môn fynediad am ddim i ganolfannau hamdden ar yr ynys, ac mae rhai plant a phobl ifanc yn cymryd mantais o hyn yn rheolaidd.

Wrth bwysu a mesur, mae'n galonogol derbyn adborth gan weithwyr cymdeithasol ynglŷn â'r gweithgareddau amrywiol y mae'r pant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt:

- Rygbi
- Pêl-droed
- Badminton
- Beicio Mynydd
- Dawnsio
- Cerdded
- Dringo
- Rhedeg
- Majorettes
- Gweithgareddau lifrai
- Bocsio
- Celf a Chrefft
- Peiriannau Adeiladu
- Campfa
- Hoci
- Cadetiaid Môr
- Pysgota

Ers haf 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r cynllun 'Hwyl yr Haf' i ddarparu cynllun gofal dros yr haf i blant bregus, yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod, a hynny am chwe wythnos yn ystod y gwyliau haf.

Y nod yw ysgogi plant bregus yn ddeallusol a chorfforol, eu cyflwyno i weithgareddau newydd, datblygu eu sgiliau a darparu gofod diogel iddynt gael mwynhau'r gwyliau haf.

Yn ystod haf 2021, sefydlwyd wyth hwb ledled yr ynys: Clwb Rygbi Llangefni

- Clwb Pêl-droed Llangefni
- Canolfan gymunedol Gwelfor, Caergybi
- Neuadd y Dref Caergybi
- Neuadd Goffa Porthaethwy
- Neuadd Bentref ac Ysgol Bodedern
- Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch
- Canolfan Eglwys fach, Niwbwrch.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys sesiynau gan:

- Môn actif
- Yr Urdd
- Elfennau Gwyllt
- Dawns i Bawb
- Cwmni Frân Wen
- Oriol Môn
- Clwb sbarci MSPARC
- Syrcas
- Bocs Sŵn Menter iaith.
- Pêl-droed (Osian Jones Clwb Pêl-droed Porthmadog).
- Ar y Trywydd
- Cwmni Ynni Da.
- Ioga
- Tec Cymru

Mae cronfa ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru eleni sef y 'Gronfa Gaeaf Llawn Lles' . Defnyddir y gornfa i ariannu cyfleoedd tebyg i blant a phobl ifanc bregus ledled yr ynys.